Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ymchwiliad i effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru

COV 88
Ymateb gan: Coleg Brenhinol y Meddygon Cymru

Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee

Inquiry into the impact of the Covid-19 outbreak on children and young people in Wales

COV 88
Response from: Royal College of Physicians Wales

Diolch am y cyfle i ymateb i wahoddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am dystiolaeth ysgrifenedig ar *Craffu ar Covid-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc*.

Yr ymateb hwn yw ffrwyth yr ymgynghoriad gyda Choleg Brenhinol y Meddygon, grŵp llywio oedolion ifanc a'r glasoed (YAASG) ac aelodau o'n rhwydwaith cleifion a gofalwyr yng Nghymru. Rydyn ni'n fwy na pharod i drefnu rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig neu dystiolaeth ar lafar os byddai hynny'n fanteisiol i'ch ymchwiliad.

Mae gan Goleg Brenhinol y Meddygon bryderon am yr effaith mae'r cyfyngiadau symud yn ei chael ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl ifanc. Gall llai o gyfle neu unrhyw newid i'r ffordd y ceir mynediad at wasanaethau arbenigol arwain at broblemau iechyd hirdymor i bobl ifanc sydd â chyflyrau cymhleth a chronig. Mae'n bosibl bod hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd gwledig lle ceir problemau cael gafael ar wasanaethau yn barod.

Maes arall sy'n peri pryder yw gallu pobl ifanc i gael gafael ar wasanaethau iechyd rhywiol yn ystod y cyfyngiadau symud yn sgil y gostyngiad mewn gwasanaethau. Er enghraifft, mae absenoldeb gwasanaeth profion STI ar-lein yn golygu nad yw'r unigolion sy'n dymuno cael mynediad at wasanaeth sgrinio a phrofi wedi cael cyfle i wneud hynny. Gallai hyn yn ei dro arwain at niwed hirdymor.

I gleifion sydd angen gwasanaethau acíwt, efallai bod amharodrwydd i gael gafael ar wasanaethau yn sgil ofn dod i gysylltiad â'r feirws mewn lleoliad gofal iechyd[1]. Ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod cyfradd heintiau nosocomiaidd o COVID-19 yn uwch nag yn y gymuned ehangach. Mae hyn eisoes yn amlwg gyda gostyngiad mewn defnydd o wasanaethau nad ydynt yn rhai sy'n ymwneud â COVID-19 mewn lleoliadau gofal.

[1] The Guardian: More people dying at home during Covid-19 pandemic – UK analysis: Pamela Duncan a Denis Campbell-8Mai 2020

Royal College of Physicians in Wales, Baltic House, Mount Stuart Square, Cardiff CF10 5FH
Coleg Brenhinol y Meddygon yng Nghymru, Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH
☎ 074 5812 9164 💻 www.rcplondon.ac.uk/wales ✉ Wales@rcplondon.ac.uk

Mae hefyd yn bwysig deall y bydd y broses o fonitro iechyd corfforol yn y tymor hwy yn newid yn sgil y pandemig. Bydd hyn yn allweddol o ran deall yr effaith ar feysydd iechyd fel gordewdra ac iechyd meddwl. Felly, mae'n bwysig datblygu'r gallu i ddarparu ymyriadau prydlon a phriodol i liniaru unrhyw ganlyniadau negyddol yn ymwneud ag iechyd.[2] Yn olaf, mae RCP Cymru a'r YAASG wedi ymrwymo o hyd i waith amlarbenigedd i wneud yn siŵr bod anghenion oedolion ifanc a'r glasoed yn cael eu hystyried a'u bodloni yn ystod y pandemig cyfredol a thu hwnt.

**Tystiolaeth bellach**

Fel rhan o'n tystiolaeth, rydym hefyd yn cyflwyno'r adroddiadau ac argymhellion canlynol gan RCP Cymru i'w hystyried. Gallwch weld pob un ohonynt isod neu ar ein gwefan.

- Survey of fellows and members about the impact of COVID-19 (2020)
- Time for research: Delivering innovative patient care in Wales (2019)
- Feeling the pressure: Patient care in an overstretched NHS in Wales (2017)

**Amdanom ni**

Mae ein 37,000 o aelodau o bob cwr o'r byd, gan gynnwys 1,300 yng Nghymru, yn gweithio ar draws 30 maes clinigol arbenigol gwahanol. Yng Nghymru, rydym ni'n gweithio'n uniongyrchol â byrddau iechyd a sefydliadau eraill GIG Cymru, gan gynnwys Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC); rydym ni'n ymweld ag ysbytai yn rheolaidd i gyfarfod â chleifion a staff; ac rydym ni'n cydweithio â sefydliadau eraill i godi ymwybyddiaeth o heriau iechyd y cyhoedd.

Rydym yn trefnu cynadleddau, digwyddiadau addysgu a gweithdy o safon uchel sy'n denu cannoedd o feddygon bob blwyddyn. Nod ein gwaith gyda Chymdeithas y Meddygon yng Nghymru yw arddangos arferion gorau drwy gystadlaethau poster a gwobrau i hyfforddeion. Rydym hefyd yn cynnal seremoni aelodau a chymrodyr hynod lwyddiannus y RCP yng Nghymru bob dwy flynedd.

Helpwch i lunio dyfodol gofal meddygol yng Nghymru, ewch i'n gwefan:
www.rcplondon.ac.uk/wales
Cofiwch roi eich barn - neu ofyn am fwy o wybodaeth - anfonwch e-bost atom:
wales@rcplondon.ac.uk
Beth am drydar eich cefnogaeth:
@RCPWales

[2] YoungMinds: Coronavirus: Impact on young people with mental health needs 20 Mawrth 2020

Royal College of Physicians in Wales, Baltic House, Mount Stuart Square, Cardiff CF10 5FH
Coleg Brenhinol y Meddygon yng Nghymru, Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH
☎ 074 5812 9164 💻 www.rcplondon.ac.uk/wales ✉ Wales@rcplondon.ac.uk